NWR 02-00(p1.)

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

PWYLLGOR RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU AM 11.20 A.M. 17$^{EG}$ MAWRTH 2000

SWYDDFA'R SIR, YR WYDDGRUG, SIR Y FFLINT

# MATERION SY'N YMWNEUD Â THWRISTIAETH GOGLEDD CYMRU

| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad gan: | David Williams | CADEIRYDD |
| | Alison Lea-Wilson | IS-GADEIRYDD (Diwydiant) |
| | Peter Gibson | CYFARWYDDWR (Awdurdod Sirol) |
| | Dewi Davies | RHEOLWR-GYFARWYDDWR |

Hyd: 20 Mun

Amser a Ganiateir ar gyfer Cwestiynau: 40 Mun

## PWYSIGRWYDD TWRISTIAETH I OGLEDD CYMRU

Amcangyfrifir bod cyfraniad twristiaeth i economi Gogledd Cymru werth £750 miliwn, - mae hyn yn cadarnhau bod 40%, fwy neu lai, o economi Twristiaeth Cymru yn un o 4 ardal economaidd Cymru. Mae twristiaeth yma yn darparu 35,000 o swyddi, yn denu 3.5 miliwn o ymwelwyr sy’n aros a ffigwr amcan o 15 miliwn o ymwelwyr dydd. Mae'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth cenedlaethol GDP o Dwristiaeth bron iawn yn 8%; mae'r ffigwr hwn yn codi i rifau dwbl yn y Gorllewin h.y. yn ardal amcan 1 y rhanbarth. Mae'r cyfraniad hwn i economi Gogledd Cymru yn hynod bwysig. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i faterion sydd eisoes yng nghylch gorchwyl Pwyllgor Datblygu Economaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru eisoes , ond yn eu gosod yn eu cyd-destun rhanbarthol.

## STRWYTHUR CORFFORAETHOL TWRISTIAETH GOGLEDD CYMRU

- Cwmni cyfyngedig trwy warant
- Bwrdd Cyfarwyddwyr
- Partneriaeth rhwng y Sectorau Cyhoeddus a Phreifat
- Ardaloedd Gweithredu
- Lefel y Gweithgareddau

STRATEGAETH A NAWDD ARIANNOL

Cyflwynwyd dogfen ymgynghori Bwrdd Croeso Cymru ar Strategaeth Twristiaeth 'Cyflawni Ein Potensial' ar gyfer y 7 mlynedd nesaf i'r Cynulliad yn ddiweddar.

Ar lefel ranbarthol, ceir 'Cydweithredu i Gystadlu' h.y. Strategaeth Twristiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ar gyfer y cyfnod 1998 - 2005. O'i chyferbynnu â'r Strategaeth Genedlaethol, sy'n cael ei gyrru gan bolisi, mae'r Strategaeth Ranbarthol yn Gynllun Gweithredu a noddir gan Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, ac a ariennir gan bob un o'r prif asiantaethau, hynny yw Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, CELTEC, y Chwe Awdurdod Sirol a Thwristiaeth Gogledd Cymru. Mae teitl yr adroddiad 'Cydweithredu i Gystadlu' yn briodol iawn i ddod â'r rhai sy'n ymwneud ag ef at ei gilydd nid yn unig yng nghyd-destun datblygu cynnyrch, buddsoddi yn y gweithlu a'i hybu er mwyn osgoi dyblygu, hyd y gellir, a chanolbwyntio ymdrechion ar gystadlu am fusnes twristiaeth ac adnoddau. Er mwyn sicrhau mwy o gydweithredu, ac y gwneir y defnydd gorau o adnoddau, mae angen i gyllidebau'r gwahanol sefydliadau twristiaeth gael eu hadolygu yn eu crynswth er mwyn cynllunio ar gyfer y gwerth gorau.

Mae'r Strategaeth yn galw am adnoddau ariannol ychwanegol a bydd, mae'n amlwg, yn gofyn am ddefnyddio arian Amcan 1, 2, a 3 ac arian dros dro yn ystod y cyfnod sy'n weddill o oes y Strategaeth.

Dau faes gweithredu yn awr yw sefydlu Trefi WOW a digwyddiadau WOW. Maddeuwch i ni am y disgrifiadau hyn; geiriau'r ymgynghorwyr ydynt, ond nid yw hynny’n eu gwneud yn llai ystyrlon, wrth gyfleu'r neges bod yna drefi a digwyddiadau yng Ngogledd Cymru y mae gofyn iddynt fod ar restr o gyrchfannau 'Rhaid Ymweld â Hwy' o fewn y Deyrnas Unedig ar gyfer ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig ac ymwelwyr tramor, fel ei gilydd. Yng Ngwanwyn 2000, bydd Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, fel partneriaid allanol i'r strategaeth, yn gwahodd y 6 Awdurdod Sirol i gyflwyno cynigion er mwyn sicrhau nawdd ychwanegol sylweddol ar gyfer dwy gymuned yn y rhanbarth a gaiff eu dynodi fel a ganlyn – Trefi Cyrchfan Strategol a Threfi Cyrchfan Rhanbarthol. Mae meini prawf ar gyfer ymgeisio am y teitlau hyn wedi'u drafftio, gan bennu'r lefel cyflawniadau isaf y mae gofyn eu cyrraedd.

Mewn modd cyffelyb, mae meini prawf ar gyfer Digwyddiadau WOW hefyd wedi cael eu drafftio. Bydd y digwyddiadau hyn denu cefnogaeth ychwanegol o'r sector cyhoeddus gyda'r bwriad o ehangu neu ddatblygu digwyddiadau newydd sy'n denu ymwelwyr o'r tu allan i'r rhanbarth, yn arbennig y tu allan i'r prif dymor gwyliau, a thrwy hynny, cynyddu incwm ac ymestyn cyfnod gweithgareddau twristiaeth.

Bydd cymeradwyo'r prosiectau yma ar sail dewis a dethol, yn mynnu cefnogaeth y Fforwm Economaidd, ac mewn llawer ffordd, bydd yn brawf litmws i'r ymrwymiad i ddatblygu'r economi twristiaeth yn gyflymach mewn rhai cymunedau.

Mae'n dipyn o ryddhad gweld bod Twristiaeth wedi'i gynnwys fel Mesur penodol o fewn y Ddogfen Rhaglen Sengl h.y. dan Flaenoriaeth 2, Amgylchedd Cystadleuol Mesur 5, ac Isadeiledd Twristiaeth.

Mae'n parhau yn destun pryder bod cyfanswm y dyraniad ariannol ar gyfer y mesur hwnnw rhwng 5 a 10% o'r dyraniad blaenoriaeth yn ôl y mesur, mae hwn yn cyfateb i ddyraniad ariannol blynyddol yn ôl y mesur o rhwng £2 a £4 miliwn o bunnoedd y flwyddyn. Mae'r ffigwr hwn yn parhau i fod yn ffigwr isel pan ystyrir y statws a'r adnoddau ariannol y bydd gofyn amdanynt, o bosib, er mwyn cefnogi buddsoddiadau prosiectau penigamp yn ôl y Strategaeth Twristiaeth Rhanbarthol. Ar y cyfan, mae hefyd yn ffigwr isel pan fo'r dyraniad penodol ar gyfer twristiaeth yn 1.25% - 2.5% o'r Ddogfen Rhaglen Sengl, o'i gymharu â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth o 8%.

Erys y pryder parhaus, fodd bynnag, ynghylch gallu'r Diwydiant Twristiaeth i addasu, yn enwedig yn y sector preifat, i wneud defnydd llawn o nawdd, a chystadlu amdano ar sail realistig, dan Flaenoriaeth 1 hy Cystadlu ym Myd Busnes pan nad yw'r nawdd, a'r allbwn, ar gyfer twristiaeth yn cael eu nodi yn y Ddogfen Rhaglen Sengl.

Mae'r Allbwn i ddibenion twristiaeth, h.y. Cyfeirir at ymwelwyr fel cyfradd sero dan Flaenoriaeth 1, fel 3498,000 dan Flaenoriaeth 2, a 674,000 dan Flaenoriaeth 5, h.y. defnydd Cynaliadwy o Adnoddau Naturiol. Mae'r un peth yn wir am Wariant Ymwelwyr lle mae Gwariant targed dan Flaenoriaeth 1 yn sero, mae Gwariant targed dan Flaenoriaeth 2 yn £17 miliwn tra bo Gwariant targed dan Flaenoriaeth 5 yn £32 miliwn.

I ystyried y mesurau a drafodwyd dan Flaenoriaeth 5, mae'r rhain yn cynnwys Rheoli Newid Amaethyddol a Datblygu Coedwigaeth, Gwella a Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol a Rheoli Cefn Gwlad, a chefnogaeth ar gyfer Pysgodfeydd ac Amaethyddiaeth felly yn gofyn am fwy o fuddsoddi gan y diwydiant twristiaeth mewn arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig nag mewn isadeiledd penigamp.

Yng nghyd-destun twristiaeth, yna mae'n rhaid cofnodi statws priodol hefyd yn y Rhaglenni Amcan 2, Dros Dro ac Amcan 3.

Heb unrhyw amheuaeth, un o'r meini prawf allweddol o ran y llwyddiant a geir gydag Amcan 1fydd sicrhau buddsoddiad yn y gweithlu o fewn y Diwydiant Twristiaeth. Bydd gofyn am ddychweliad llawer mwy nag a gafwyd ar gyfer yr hyfforddiant a gyflawnwyd dan yr Amcan 5b presennol, a chroesewir yn arw sefydlu'r Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth i Gymru dan arweiniad Bwrdd Croeso Cymru gyda phartneriaid rhanbarthol yn rhan ohono, gan gynnwys CELTEC a Thwristiaeth Gogledd Cymru; mae'n darparu ffocws ar gyfer trosolwg strategol ar Hyfforddiant Twristiaeth. Mae gan Dwristiaeth Gogledd Cymru is-grwp rhanbarthol yn ei Banel Hyfforddi sy'n gyfranogwr parod i ddatblygiad Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth i Gymru fel a lansiwyd gan yr Ysgrifennydd ar 22ain Tachwedd.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Mae'r Adolygiad o Rolau a Chyfrifoldebau wedi cymryd cryn amser ac wedi torri ar yr amser a dreuliwyd yn hybu Cymru a sicrhau ymwelwyr, sef ein blaenoriaeth. Rhoddwyd cryn sylw i rôl Twristiaeth Gogledd Cymru fel y sefydliad sydd wedi'i gyfosod rhwng Bwrdd Croeso Cymru a'r Awdurdodau Sirol. Croesawyd gofyniad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ynghylch trin ymhellach â

lefel gynrychioliadol y ddogfen ymgynghori a gafodd ei chylchredeg a bydd Bwrdd Croeso Cymru yn gwneud eu hargymhellion terfynol i'r Pwyllgor. Fel partneriaeth sefydledig o bron iawn i 2000 o aelodau o'r diwydiant a'r Awdurdodau Sirol yn y rhanbarth, barn ystyriol Bwrdd y Cyfarwyddwyr yw bod rhaid cael Sefydliad Twristiaeth Rhanbarthol fel corff ymarferol hirsefydlog sy'n gweithredu yn gydffiniol â'r ffiniau.

I raddau helaeth, mae'r Diwydiant Twristiaeth dan ddylanwad mân busnesau a busnesau bychain - mae'n ddarniog iawn a byddai ei ddarnio ymhellach yn gelloedd bychain yn rhannu'r diwydiant ymhellach, gan greu sefydliadau nad ydynt yn ymarferol o ran effeithiolrwydd ac economi.

Mae'r Cwmni yn cefnogi'n gryf y datblygiad o Ardaloedd Economaidd Twristiaeth sy'n adlewyrchu ffiniau'r pedair Ardal Datblygu Economaidd Rhanbarthol yng Nghymru, dyma'r unig linellau gwleidyddol ar y map yng Nghymru. Nid yw aelodau Gogledd Cymru eisiau gweld unrhyw leihad yn yr adnoddau a'r nawdd y mae'r Cynulliad yn eu darparu naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol ar gyfer twristiaeth yn y rhanbarth hwn.

Mae twristiaeth yn cael ei gydnabod fel swyddogaeth anstrategol gan awdurdodau lleol a thra ein bod yn parhau i fod yn bartneriaid gyda'r awdurdodau o ran hybu twristiaeth, bydd Twristiaeth Gogledd Cymru yn parhau yr unig sefydliad sy'n ymwneud yn unig â hybu twristiaeth ledled y rhanbarth.

HELPU'R CWSMER A GWELLA ANSAWDD

Sicrhau ymagwedd gyson ac integredig at arwyddion twristiaeth ar draws yr holl ardaloedd awdurdodau lleol.

Ystyriaethau Lleol

- Arwyddion ar gyfer yr A55 ym Môn
- Cofrestru statudol ar gyfer yr holl lety a ddarperir at ddibenion twristiaeth, yn gysylltiedig ag archwilio a chydymffurfio ag Isafswm safonau
- Ymagwedd gydlynedig at ymarfer gorau, datblygiad hyfforddiant a busnes trwy'r gwaith mewn Cydweithrediad â'r Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth i Gymru.

nafwcym.chw 13.3.00